

Y Pwyllgor Cyllid

Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Swm Penodedig o Rent Perthnasol) (Cymru) 2018

Mae'r Offeryn Statudol hwn yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Cyllid o dan Reol Sefydlog 27.8A.

Cefndir a diben

- 01.** Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu swm y rhent perthnasol o dan baragraff 36(1)(b) o Atodlen 6 i Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, at ddibenion diffinio "y swm penodedig" ym mharagraffau 34 a 35 o'r Atodlen honno. Y swm a bennir yw £9,000.
- 02.** Mae Atodlen 6 i'r Ddeddf TTTG yn gwneud darpariaeth ynghylch cymhwyso'r Ddeddf mewn perthynas â lesioedd. Mae Rhan 5 o Atodlen 6 yn gwneud darpariaeth ynghylch swm y dreth sydd i'w godi ar drafodiadau lesioedd. Mae paragraff 33 o Atodlen 6 yn cadarnhau bod y dreth a godir o dan yr Atodlen hon yn ychwanegol at y dreth a gyfrifir o dan y darpariaethau eraill; mae paragraff 34 yn ddarpariaeth ynghylch gwrthweithio osgoi trethi, sydd â'r bwriad o atal ystumio posibl mewn perthynas â thrafodiadau lesioedd. Mae paragraff 35 yn darparu bod cydnabyddiaeth ar wahân i rent ar gyfer les gymysg. Mae paragraff 36 yn diffinio "y rhent perthnasol", "y swm penodedig" ac "y rhent blynyddol". Yn ôl y dreth trafodiadau tir, dim ond rhent a delir am eiddo annomestig sy'n cael ei drethu o dan y rheolau hyn. Mae rhenti a delir o dan lesioedd preswyl y tu hwnt i gwmpas y dreth.

Gweithdrefn

- 03.** Cadarnhaol.

Craffu ar y rhinweddau

- 04.** Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Amcanion polisi

Datganiad ar fwriad y polisi



05. Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor i graffu ar y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru), darparodd Llywodraeth Cymru wybodaeth am fwriad y polisi ar gyfer y pwerau dirprwyedig o fewn y Bil.

06. Mae'r rheoliad a gyflwynwyd yn cyd-fynd â pholisïau cysylltiedig yn y datganiad.

Mae'n nodi'r canlynol ynghylch Paragraff 36(1) o Atodlen 5 i'r Bil: "Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i amrywio'r gyfradd ddisgownt amser yn y dyfodol i adlewyrchu amodau economaidd a'r farchnad eiddo ar y pryd".

Gwaith craffu Cyfnod 1 gan y Pwyllgor Cyllid

07. Ni wnaed unrhyw sylwadau yn ymwneud â'r rheoliad a gyflwynwyd yn ystod y gwaith craffu yng Nghyfnod 1.

Ymatebion i'r ymgynghoriad

Ymgynghoriad y Cynulliad

08. Ni wnaed unrhyw sylwadau.

Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru

09. Ni wnaed unrhyw sylwadau. Fodd bynnag, yn y memorandwm esboniadol i'r rheoliad, nododd Llywodraeth Cymru fod rhanddeiliaid wedi codi pryderon yn y gorffennol fod y rheol flaenorol ynghylch treth dir y dreth stamp, a oedd yn cael ei chymwysu mewn perthynas â'r rhent perthnasol o £1,000, yn rhy isel. Mae'r rheoliad hwn wedi cynyddu swm y rhent perthnasol i £9,000 ar gyfer TTT.

Rheoliadau yn yr Alban

10. Y gwahaniaeth rhwng trothwyon rhent perthnasol. Cafodd y trothwy rhent perthnasol o £1,000 (£9,000 yng Nghymru) ei gynnwys yn Neddf Trafodiadau Tir ac Adeiladau (Yr Alban) 2013.

Rheoliadau'r DU

11. Y gwahaniaeth rhwng trothwyon rhent perthnasol. Cafodd y trothwy rhent perthnasol o £1,000 (£9,000 yng Nghymru) ei gynnwys yn Neddf Cyllid 2008.

Ymateb y Llywodraeth

12. Ni wnaed unrhyw bwyntiau o ran 'craffu ar y rhinweddau'.



13. Fodd bynnag, dylid nodi bod y rheol berthnasol ynghylch rhent yn nhreth dir y dreth stamp wedi'i ddiddymu gan Ddeddf Cyllid 2016. Cyn hynny, y swm ar gyfer rhent perthnasol oedd £1,000, sef y swm yn yr Alban o hyd.

Safbwynt y Pwyllgor

Nododd y Pwyllgor y rheoliadau.

